Gareth Owens
Clerc i  Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

19 Tachwedd 2021

Annwyl Gareth

**Adolygiad o Gyflog Prif Swyddog Tân Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Cafodd eich cais ynghylch adolygu cyflog y Prif Swyddog Tân ei ystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn ei gyfarfod ar 16 Tachwedd. Roedd pob aelod o'r Panel yn bresennol, ac felly cafwyd cworwm yn y cyfarfod.

O ran swyddogaeth y Panel mewn perthynas â chyflogau Penaethiaid Gwasanaethau Cyflogedig, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

a) Cymeradwyo'r cynnig
b) Mynegi pryderon am y cynnig
c) Argymell newidiadau i'r cynnig

Ar ôl edrych ar y cais gan eich awdurdod, penderfyniad y Panel yw cymeradwyo'r cynnig ar gyfer newid cyflog swydd y Prif Swyddog Tân fel y'i cyflwynwyd gan yr awdurdod.

Fodd bynnag fe wnaeth y Panel fynegi pryder y bu'n rhaid gwneud y penderfyniad hwn fel penderfyniad ôl-weithredol gan fod eich awdurdod wedi methu â chydymffurfio â'r gofyniad i gael barn y Panel cyn gweithredu unrhyw newid i'r tâl a roddir i'r Prif Swyddog.

Yn gywir

John Bader

Cadeirydd